



12.06.2020

Annwyl Rieni/Ofalwyr

Ar 3 Mehefin 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y byddai ysgolion yng Nghymru'n cynyddu eu gweithrediadau o 29 Mehefin fel bod gan yr holl ddysgwyr gyfle **dewisol** i 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf a mis Medi'. Bydd estyniad o wythnos ar dymor yr haf, hyd at a chan gynnwys dydd Gwener 24 Gorffennaf 2020 a bydd wythnos ychwanegol o wyliau ym mis Hydref, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau dyddiad yr wythnos hon eto. Mae'r canllawiau llawn i'w gweld yma: <https://llyw.cymru/diogelu-addysg-canllawiau-ar-ddysgu-dros-dymor-yr-haf>.

Mae canllawiau BCBC yn gofyn bod plant yn cael cyfle i fynd i'r ysgol ar ddau achlysur cyn diwedd tymor yr haf. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl bod unrhyw ddisgybl sydd wedi cael llythyr gwarchod yn ymatal rhag dod i'r ysgol a bod unrhyw ddisgybl â chyflwr iechyd parhaus yn ceisio cyngor meddygol cyn gwneud hynny. Mae hybiau gweithwyr allweddol yn dal i weithredu dan drefniadau derbyn yr awdurdod lleol a gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol â CBS Pen-y-bont ar Ogwr os byddwch yn dymuno ymholi ynghylch cael mynediad neu, i lawer ohonoch, barhau i gael mynediad at y ddarpariaeth hybiau gofal plant mewn argyfwng.

Amser cyswllt yn yr ysgol yw'r sesiynau ailgydio dewisol. Nid yw hyn yn addysg statudol yng Nghymru ac ni fydd gwersi ffurfiol yn cael eu cynnal yn ystod yr amser hwn. Bydd ein darpariaeth gweithgareddau ar-lein ar Hwb yn parhau tan ddiwedd tymor yr haf. Bydd y cyfleoedd ailgydio'n cynnig amser i ddisgyblion (o'r Meithrin i Flwyddyn 6) fynychu'r ysgol mewn grŵp bach gyda rhai o'r cyd-ddisgyblion yn eu dosbarth ac aelod o staff (lle y bo'n bosibl, eu hathro neu athrawes dosbarth fydd yr aelod yma). Bydd gweithgareddau'n cael eu cynnal sy'n briodol i'w hoedran, mewn ystafelloedd dosbarth a'r tu allan ar dir yr ysgol. Bydd amseroedd egwyl ac amseroedd cinio'n cael eu gwasgaru er mwyn lleihau'r posibilrwydd o groes-halogi gyda grwpiau eraill o ddysgwyr a fydd hefyd yn bresennol ar y safle, ac felly hefyd amseroedd dechrau a gorffen y diwrnod ysgol. Rydym eisoes wedi cynnal dadansoddiad o grwpiau o frodyr a chwiorydd a, lle y bo'n bosibl, byddwn yn ceisio galluogi brodyr a chwiorydd i fynychu ar yr un diwrnod(au). Nid ydym yn disgwyl i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol yn ystod y cyfnod hwn ac mae'r canllawiau'n argymhell bod plant yn gwisgo dillad cyfforddus, priodol y gellir eu golchi mewn peiriant golchi. Byddwn yn gofyn i ddisgyblion ddod â chyn lleied â phosibl o offer ac eiddo personol. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'n llawn y bydd llawer ohonoch yn bryderus ynghylch y posibilrwydd o'ch plentyn/plant yn dychwelyd i'r ysgol a byddwn yn gweithio gyda chi dros yr wythnosau nesaf i sicrhau bod eich plentyn yn cael profiad cadarnhaol os bydd yn dymuno mynychu.

Rydym yn gweithio i gydymffurfio â chanllawiau drafft yr Awdurdod Lleol a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru hyd y bo hynny'n ymarferol, gan gynnwys sefydlu cynlluniau a threfniadau i ymlynu wrth ganllawiau sy'n ymwneud ag ymbellhau cymdeithasol, cyfyngu ar feintiau dosbarthiadau a darparu gwasanaethau arlwyo a glanhau yn unol â'n

cytundebau lefel gwasanaeth gyda'r awdurdod lleol. Bydd yr ysgol fel yr ydym ni'n ei hadnabod yn newid, a rhaid iddi newid, a byddwch hefyd yn gweld ymbellhau cymdeithasol ar gludiant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol, ar fuarth yr ysgol ac ar adegau danfon a chasglu plant. Bydd systemau unffordd yn weithredol ar safle'r ysgol ac yn adeilad yr ysgol. Mae cyfarfodydd ac ymweliadau nad ydynt yn hanfodol wedi cael eu gohirio i leihau nifer y personél ar y safle. Byddwn yn rhoi canllawiau mwy penodol i chi cyn bod y disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol, wrth gwrs, a gofynnwn i bawb sydd ar y safle barchu'r trefniadau dros dro. Wrth gynnal ein hasesiadau risg a'u rhoi ar waith, rydym yn cael cymorth, cyngor ac arweiniad cyfreithiol gan yr awdurdod a'n darparwyr cyngor annibynnol. Ni fydd yr un ysgol, boed yn ystod pandemig neu beidio, byth heb unrhyw risgiau o gwbl ac rydym yn cydnabod risgiau penodol ac yn lliniaru'r rhain lle gallwn wneud hynny.

Mae rhai ohonoch eisoes wedi cysylltu â ni i'n holi am drefniadau dosbarthiadau ar gyfer y flwyddyn nesaf a'r trefniadau ar gyfer pontio i'r cyfnod nesaf yn addysg eich plentyn. Mae gweithgareddau pontio eisoes wedi cael eu hwyluso ar gyfer Blwyddyn 6 a bydd hyn yn parhau yn ystod gweddill y tymor. Nid oes gennym fanylion eto ar gyfer trefniadau dosbarthiadau ym mis Medi, ond eto byddwn yn cyfleu'r rhain i chi lle gallwn.

Nid oes gofyniad i anfon eich plentyn i'r ysgol ar gyfer y sesiynau ailgydio ym mis Mehefin/Gorffennaf. Fodd bynnag, i'n cynorthwyo i gynllunio ar gyfer dyrannu ystafelloedd dosbarth a chynllunio'n cymarebau staffio am weddill tymor yr haf, wythnos nesaf byddwn yn eich gwahodd i gwblhau arolwg byr i roi gwybod i ni pa un a ydych yn dymuno i'ch plentyn/plant gael mynediad at y sesiynau ailgydio ai peidio. Byddwn yn anfon y ddolen i'r arolwg atoch wedi i'r awdurdod lleol gyhoeddi ei ganllawiau i rieni, y mae disgwyl iddynt gael eu cyhoeddi yn gynnar wythnos nesaf.

Unwaith eto, diolchwn i chi am eich cydweithrediad parhaus ar yr adeg anodd hon ac am eich dealltwriaeth a'ch amynedd yn ystod cyfnod a fydd yn brofiad dysgu i bob un ohonom. Ni wyddom eto beth ddaw ym mis Medi o ran y pandemig nac addysg a byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i gyfathrebu gyda chi ynghylch unrhyw ddatblygiadau cyn gynted ag y gallwn. Os oes gennych unrhyw ymholiadau penodol ynglŷn â'ch plentyn/plant yn dychwelyd i'r ysgol, cysylltwch â ni'n ddiymdroi ar gyfeiriad e-bost yr ysgol, sef admin.broogwr@bridgend.gov.uk i drafod y rhain.

Gyda'n dymuniadau gorau

Sharon Jayne

Pennaeth

Nik Dart

Cadeirydd y Llywodraethwyr